This document is also available in English

CYNNWYS

**ADRAN 20**

**20.1** **Cod Ymarfer Cynllunio**

**ADRAN 20 - PROTOCOL CYNLLUNIO**

**CYNNWYS**


1 Cyflwyniad

2 Rolau, Cyfrifoldebau ac Ymddygiad Cyffredinol

3 Trefniadau prosesu gweinyddol

4 Trafodaethau cyn ymgeisio / penderfynu a Gorfodi

5 Lobïo Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio

6 Ceisiadau Cynllunio a gyflwynwyd gan Aelodau, Cynghorau Cymuned/Tref a Swyddogion

7 Ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan y Cyngor

8 Adroddiadau swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio

9 Rhwymedigaethau Cynllunio

10 Cynnal a threfniadaeth cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio

11 Ymweliadau safle'r Pwyllgor Cynllunio

12 Penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhelliad y Swyddog

13 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor

14 Hyfforddiant i aelodau

15 Adolygu penderfyniadau

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae’r Cod Ymarfer hwn yn ganllaw i’r gweithdrefnau y dylai’r Cynghorwyr (‘Aelodau’) a Swyddogion y Cyngor eu defnyddio wrth ddelio â materion cynllunio ac yn gosod safonau uniondeb ac ymddygiad y gall pobl Conwy ei ddisgwyl ganddynt.

1.2 Gan fod Cynllunio yn effeithio ar fywydau pobl a chysylltiadau preifat, gall fod yn ddadleuol iawn. Felly mae’n bwysig bod pobl Conwy yn deall y system a bod ganddynt hyder yn ei uniondeb a thryloywder, a bod Aelodau a Swyddogion, sy'n ymwneud â'r broses 'gynllunio', yn osgoi amhriodoldeb neu hyd yn oed yr amheuaeth o amhriodoldeb. Cefnogir yr ymagwedd hon gan Bwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan) Archwilio Rhanbarthol a Chymdeithas Llywodraeth Leol.

1.3 Rhaid i Aelodau ddilyn y Côd Ymddygiad ar gyfer *Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* (y mae Rhan III ohono yn ymdrin â materion megis datgan buddiannau, rhoddion a lletygarwch) a'r *Protocol ar gyfer Perthynas Aelodau, Swyddogion*. Wrth ymdrin â materion cynllunio rhaid iddynt hefyd weithredu yn unol â'r Côd Ymarfer Cynllunio hwn.

1.4 Gall torri’r cod hwn, er nad yw fel arfer yn golygu torri cyfraith trosedd, gael effaith andwyol ar sefyllfa'r Cyngor. Gallai arwain at adolygiad barnwrol o benderfyniad neu gyflwyno cwyn am gamweinyddu neu honiad o dorri’r Cod Ymddygiad i’r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

1.5 Os oes gan Aelodau neu swyddogion amheuaeth ynghylch cymhwyso'r 'Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy' neu'r Cod Ymarfer Cynllunio hwn, dylent geisio cyngor gan Swyddog Monitro'r Cyngor.

## 2. ROLAU, CYFRIFOLDEBAU AC YMDDYGIAD CYFFREDINOL

2.1 Mae rolau gwahanol ond cydategol gan Aelodau a swyddogion yn y broses gynllunio. Mae rolau Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn wahanol i rolau cynghorwyr eraill.

2.2 Mae Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio'n pennu'r ceisiadau cynllunio mwyaf pwysig a dadleuol a gyflwynir i'r Cyngor. Drwy wneud hynny mae gan yr Aelodau hyn rôl led-farnwrol ac mae gofyn iddynt ystyried yr holl gynigion cynllunio yn erbyn buddion ehangach y cyhoedd. O ganlyniad i natur swyddogaeth y Pwyllgor Cynllunio, rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gael hyfforddiant. Caiff ceisiadau eraill eu dirprwyo i Bennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, fel y disgrifir ym Mharagraff 2.10.

2.3 Bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn:

- cymryd cyfrifoldeb personol dros benderfynu a ddylent ddatgan unrhyw gysylltiad perthnasol ai peidio gydag unrhyw gais cynllunio a gyflwynir i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio, ac ystyried a ddylent beidio cymryd rhan yn y penderfynu. Os oes gan yr Aelodau unrhyw amheuaeth, dylent gysylltu â chael canllawiau oddi wrth y Swyddog Monitro.
- ymddwyn yn deg ac agored a pheidio â gweithredu mewn unrhyw ffordd a allai wneud iddynt ymddangos yn rhagfarnllyd.
- osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, eu gwrthwynebwyr ac unrhyw fudd-ddeiliaid eraill.
- edrych ar bob cais cynllunio / mater gyda meddwl agored, gan osgoi rhagdybiaethau.
- peidio trefnu cefnogaeth neu wrthwynebiad i gais cynllunio os nad ydynt yn dymuno effeithio ar eu gallu i bleidleisio yn y Pwyllgor Cynllunio.
- pwysoli'r holl faterion cynllunio perthnasol yn ofalus cyn gwneud penderfyniad.
- gwneud penderfyniadau ar sail ystyriaethau cynllunio er lles y cyhoedd yn unig, a pheidio ffafrio neu ymddangos fel eu bod yn ffafrio unrhyw unigolyn, cwmni, grŵp neu ardal leol, (ac er bod gan Aelodau Pwyllgor gyfrifoldeb arbennig am etholwyr eu Rhanbarth Etholiadol, gan gynnwys y rhai hynny na wnaeth bleidleisio drostynt, eu dyletswydd yng nghyswllt cynllunio yw gwasanaethu'r gymuned gyfan).
- peidio penderfynu sut i bleidleisio ar geisiadau ar sail 'chwip' wleidyddol, ond ar sail rhinweddau cynllunio pob achos, (fe allai defnyddio egwyddor 'chwip' wleidyddol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â chais fod yn camweinyddu, ac achosi ymyriad gan yr Ombwdsmon).
- rhoi rhesymau / cyfiawnhad dros eu safbwynt a'u casgliadau.

**Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio sydd hefyd yn aelodau o Gynghorau Cymuned/Tref**

2.4 Mae bod yn aelod o Gyngor Cymuned / Tref yn gyfle i wrando ar safbwyntiau lleol, ac nid yw ynddo'i hun yn ddigon i olygu bod buddiannau Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio yn gwrthdaro ar yr amod ei bod/fod yn cadw meddwl agored hyd nes y bydd pob tystiolaeth a dadl wedi ei chyflwyno gerbron y Pwyllgor Cynllunio.

2.5 Yn gyfreithiol, gall Aelod gymryd rhan a phleidleisio pan fo cais cynllunio'n cael ei ystyried mewn cyfarfod Cyngor Cymuned / Tref. Serch hynny, fe allai hynny achosi honiadau bod yr Aelod wedi llunio barn ymlaen llaw o ran sut byddai ef / hi am bleidleisio cyn bod yr adroddiad yn mynd gerbron Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn llawn a therfynol, a chyn clywed y drafodaeth, a gallai hynny arwain at honiadau fod yr Aelod wedi gwneud penderfyniad ar y cais ymlaen llaw. Gallai hynny danseilio integriti penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ac yna gellid herio'r penderfyniad hwnnw mewn apêl, yn y llysoedd neu drwy honiad o gamweinyddu i'r Ombwdsmon.

2.6 Felly, dylai Aelodau ystyried yn ofalus os ydynt am gymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio mewn Cyngor Cymuned / Tref, neu yn y Pwyllgor

Cynllunio, ond nid yn y ddau. Dylai Aelodau ofyn am gyngor gan y swyddog Monitro os oes unrhyw amheuaeth.

**Aelodau'r Cyngor nad ydynt ar y Pwyllgor Cynllunio**

2.7 Gall Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor sy’n cynrychioli eu ward siarad yn ystod y Pwyllgor ond fe ddylent gofrestru gyda’r Cadeirydd cyn y cyfarfod a chadw at yr un rheolau ag aelodau o’r cyhoedd (yn amodol ar ddatgan cysylltiad), ond nid oes modd iddynt fwrw pleidlais. Nid yw Aelodau o’r fath yn gweithredu'r rôl led-farnwrol sydd gan Aelodau'r Pwyllgor, ond byddant yn:

- ymddwyn yn deg ac yn agored ac osgoi unrhyw gamau a allai arwain at argraff o duedd neu ddylanwad gormodol.
- osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, eu gwrthwynebwyr ac unrhyw fudd-ddeiliaid eraill.

2.8 Fe all Aelodau o'r fath fynegi eu bod yn cefnogi barn benodol cyn i'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio (neu gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai dan bwerau dirprwyedig).

**Swyddogion**

2.9 Gwaith swyddogion yw cefnogi a hwyluso gwaith y Cynghorwyr a gweithredu penderfyniadau cyfreithiol.

2.10 Mae Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio o dan bwerau dirprwyedig, ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â cheisiadau mwy arwyddocaol a dadleuol a materion eraill sy'n ymwneud â chynllunio, sydd i'w pennu gan y Pwyllgor Cynllunio a'r Cyngor. Wrth ystyried ceisiadau a chynghori Aelodau a’r cyhoedd ynglŷn â pholisi cynllunio, penderfynu ar geisiadau cynllunio, gorfodi a materion cynllunio eraill, bydd y swyddogion yn: -

- ymddwyn yn deg ac agored a pheidio â gweithredu mewn unrhyw ffordd a allai wneud iddynt ymddangos yn rhagfarnllyd.
- osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, eu gwrthwynebwyr ac unrhyw fudd-ddeiliaid eraill.
- edrych ar bob cais cynllunio / mater gyda meddwl agored, gan osgoi rhagdybiaethau.
- pwysoli'r holl faterion cynllunio perthnasol yn ofalus.
- gwneud penderfyniadau ar sail cynllunio yn unig gan ystyried y cynllun datblygu ac ystyriaethau atodol eraill.
- rhoi cyngor cynllunio proffesiynol, gwrthrychol a chyson.
- darparu dadansoddiad cynhwysfawr a chywir o faterion cynllunio.
- rhoi argymhelliad clir.
- gweithredu penderfyniadau'r Pwyllgor.

2.11 Mae Swyddogion Cyfreithiol y Cyngor yn cynghori Aelodau ynglŷn â materion cyfreithiol a threfniadol. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddynt:

- ymddwyn yn deg ac agored a pheidio â gweithredu mewn unrhyw ffordd a allai wneud iddynt ymddangos yn rhagfarnllyd.
- osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, eu gwrthwynebwyr ac unrhyw fudd-ddeiliaid eraill.
- rhoi cyngor proffesiynol, gwrthrychol a chyson.
- •gweithredu penderfyniadau'r Pwyllgor os ydynt yn ymwneud â chwblhau cytundeb cyfreithiol, neu gychwyn achos llys / amddiffyn y Cyngor mewn achos llys etc.

## 3. TREFNIADAU PROSESU GWEINYDDOL

### Hysbysu ynglŷn â cheisiadau cynllunio

3.1 Bydd pob Aelod o'r Cyngor yn cael gwybod am bob cais cynllunio a phob cais cysylltiedig drwy'r “Rhestr Wythnosol o Geisiadau Cynllunio a Gyflwynwyd” ym Mwletin Gwybodaeth yr Aelodau. Mae’r holl geisiadau a gofrestrwyd ers 15 Gorffennaf 2013 ar gael i’w darllen ar wefan y Cyngor.

3.2 Bydd y rhestr ceisiadau wythnosol yn dynodi ai'r Pwyllgor Cynllunio sy'n pennu'r cais ynteu swyddogion o dan y cynllun dirprwyo.

### Cyfarfodydd gydag ymgeiswyr a gwrthwynebwyr

3.3 Ni fydd Aelodau Lleol fel arfer yn cael eu gwahodd gan swyddogion o fewn yr Adain Datblygu a Rheoli Adeiladu i unrhyw gyfarfodydd cyffredinol gydag ymgeiswyr neu wrthwynebwyr i drafod cais yn eu rhanbarth etholiadol, er y gall yr ymgeisydd / y gwrthwynebydd estyn gwahoddiad iddynt. Os yw Aelodau'n mynychu cyfarfodydd o'r fath, fe ddylent fod yn ymwybodol bod rhaid iddynt beidio â dangos unrhyw arwydd eu bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw ynglŷn â'r cais.

3.4 Bydd Aelodau Lleol yn cael gwybod am gyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir i drafod unrhyw gais sy'n ymwneud â thir neu eiddo yn eu rhanbarth etholiadol, ac sydd naill ai wedi eu trefnu gan y Cyngor neu gan swyddogion Datblygu a Rheoli Adeiladu.

3.5 Ar gyfer ceisiadau sy’n cynnwys cynigion datblygu mawr, bydd aelodau wardiau lleol hefyd yn cael eu hysbysu ynglŷn â’r cynigion trwy’r broses ymgynghori cyn-ymgeisio. Mae hon yn broses statudol a gynhelir gan y datblygwr cyn cyflwyno cais cynllunio.

### Y Broses o Bennu Ceisiadau

3.6 Os yw Aelod am i gais, a ddynodwyd i'w bennu o dan bwerau dirprwyedig, gael ei bennu gan y Pwyllgor Cynllunio, fe ddylai wneud cais ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu o fewn pythefnos o'r cais yn ymddangos yn y rhestr wythnosol o geisiadau cynllunio lle nodir bod y cais wedi ei dderbyn. Yn y cais, dylid nodi'r rhesymau pam fod angen i'r Pwyllgor Cynllunio bennu'r cais.

3.7 Bydd ceisiadau er ystyriaeth y Pwyllgor yn cadw at y terfynau amser ac ni fydd y Pwyllgor yn ystyried cais hwyr neu gais heb reswm dilys dros geisio am ganiatâd cynllunio.

3.8 Ni ddylai Aelodau roi pwysau ar swyddogion i wneud argymhellion neu benderfyniadau penodol nac i newid argymhellion neu benderfyniadau mewn perthynas ag unrhyw gais. Dylai Aelodau gadw at y Cod Ymddygiad bob amser.

## 4. TRAFODAETHAU CYN GWNEUD CAIS A GORFODAETH

4.1 Mae trafodaethau yn hanfodol yn y broses Gynllunio gan y gall y trafodaethau hyn olygu gwelliannau a all wneud cais yn dderbyniol neu fel arall ddatrys problemau, gan gyflymu'r broses cais cynllunio a chefnogi unrhyw drafodaeth a allai ffurfio rhan o ymchwiliad Gorfodi.

4.2 Fel arfer, bydd trafodaethau o'r fath yn cael eu cynnal ar lefel swyddog, a bydd Aelodau, lle bynnag y bo'n bosibl, yn cyfeirio ceisiadau am gyngor o'r fath i swyddogion. Os yw Aelodau'n cymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath, dylent ddatgan yn glir bod eu safbwyntiau'n bersonol ac yn amodol, ac o bosib byddant yn dymuno gwneud cofnod o'r drafodaeth.

4.3 Bydd pob swyddog sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath yn:

- dynodi'r broses wneud penderfyniadau sy'n berthnasol i'r cais / mater sydd dan sylw
- egluro mai dim ond safbwyntiau personol a thros dro y gellir eu mynegi ac na fyddent yn ymrwymo'r Cyngor i wneud penderfyniad penodol wrth lunio penderfyniad ynglŷn â chais.
- mynegi safbwyntiau yng nghyd-destun y cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio eraill.
- bod yn gyson wrth ddehongli polisïau cynllunio a chanllawiau'r Llywodraeth.
- cynghori ymgeiswyr a chymdogion / gwrthwynebwyr ynglŷn â materion trefniadol.

4.4 O dro i dro bydd pobl leol neu Gynghorau Cymuned / Tref yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus i drafod cais presennol, ac mae'n bosibl y byddant yn gwahodd yr ymgeiswyr, Aelodau a swyddogion i fod yn bresennol. O ystyried yr angen i osgoi pennu cais ymlaen llaw, dylai Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ystyried yn

ofalus os dylent fynychu cyfarfodydd o'r fath. Os yw Aelodau’r Pwyllgor Cynllunio a swyddogion yn mynychu cyfarfodydd o’r fath dylent ond eu defnyddio i ganfod ffeithiau; ni ddylent fynegi barn o blaid nac yn erbyn y cais a dylent weithredu yn unol â Pharagraffau 2.4 i 2.6 a 4.2.

**5. LOBÏO AELODAU’R PWYLLGOR CYNLLUNIO**

5.1 Lobïo yw pan fo ymgeiswyr; asiantau, cymdogion, pobl nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor a budd-ddeiliaid eraill yn ceisio darbwyllo Cynghorwyr y Pwyllgor Cynllunio i benderfynu'r naill ffordd neu'r llall. Mae ganddynt hawl i gysylltu ag Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, ac fe all cynnal trafodaethau fel hyn helpu Aelodau i ddeall y materion a'r pryderon. Fel y nodwyd yn “Nhrydydd Adroddiad Pwyllgor Nolan”, mae'n hanfodol cynnal trafodaeth ddigonol ar bryderon lleol er mwyn sicrhau bod y system Gynllunio'n cael ei gweithredu yn y modd cywir”

5.2 Os bydd yr unigolion hyn yn cysylltu ag Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn y modd yma, ni ddylai'r Aelodau hynny fynegi barn yn gyhoeddus a allai ddynodi eu bod wedi gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais cyn clywed pob tystiolaeth a dadl a fydd yn cael eu cyflwyno yn y Pwyllgor Cynllunio. Dylent egluro eu sefyllfa yng nghyswllt uniondeb os ydynt yn mynegi barn ar gais cyn iddo gael ei ystyried yn y Pwyllgor. Dylent:

- egluro'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno sylwadau.
- dynodi na wneir penderfyniad hyd nes y bydd yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol wedi eu cloriannu.
- egluro’r mathau o faterion cynllunio y gall y Cyngor eu hystyried.
- adrodd am faterion a godwyd i swyddogion neu atgyfeirio’r cyhoedd i’r Swyddogion er mwyn iddynt ystyried eu safbwyntiau.

5.3 Er nad yw'n anghyfreithlon i Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio gefnogi canlyniad penodol yn gyhoeddus, neu fynegi barn ynglŷn â chais, cyn i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio gael ei gynnal, fe allai hynny achosi honiadau bod yr Aelod wedi llunio barn ymlaen llaw o ran sut byddai ef / hi am bleidleisio cyn bod yr adroddiad llawn a therfynol yn mynd gerbron Pwyllgor Cynllunio y Cyngor, a chyn clywed y drafodaeth, a gallai hynny arwain at honiadau fod yr Aelod wedi gwneud penderfyniad ar y cais ymlaen llaw. Gallai hynny danseilio integriti penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ac yna gellid herio'r penderfyniad hwnnw mewn apêl, yn y llysoedd neu drwy honiad o gamweinyddu i'r Ombwdsmon.

5.4 Felly, dylai Aelodau osgoi rhoi unrhyw arwydd eu bod wedi llunio barn ar gais cynllunio cyn iddynt ystyried adroddiad llawn a thrafod yn y Pwyllgor Cynllunio.

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO A GYFLWYNIR GAN AELODAU, CYNGHORAU CYMUNED / TREF A SWYDDOGION**

6.1 Bydd ceisiadau a gyflwynir gan Aelodau o’r Cyngor, Prif Swyddogion, neu swyddogion a gyflogir o fewn yr adran Rheoli Datblygiad (gan gynnwys perthnasau agos) pan fo argymhelliad y swyddog yw rhoi caniatâd yn cael eu

pennu gan y Pwyllgor Cynllunio ac nid, o dan bwerau dirprwyedig gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai.
Bydd hyn hefyd yn berthnasol pan fo'r Aelod yn gweithredu fel asiant ar ran rhywun arall.

6.2 Rhaid i'r Aelod(au) yr effeithir arnynt ddatgan eu buddiant/perthynas a thynnu'n ôl o unrhyw gyfraniad at y penderfyniad a pheidio â chymryd rhan yn y penderfyniad.

6.3 Lle bo Cyngor Cymuned neu Dref yn cyflwyno cais cynllunio, fe ddylai Aelodau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol sydd hefyd yn Aelodau o'r Cyngor Cymuned neu Dref hwnnw ddatgan eu cysylltiad â pheidio â phleidleisio ar y cais hwnnw os caiff ei gyflwyno i'w benderfynu gan y Pwyllgor.

## 7. CEISIADAU CYNLLUNIO A GYFLWYNIR GAN Y CYNGOR

7.1 Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn trin ceisiadau ar gyfer ei ddatblygiadau ei hun neu dir ym meddiant y Cyngor (neu ddatblygiad sy'n cynnwys y Cyngor a charfan arall) yn yr un modd â phob cais arall, a'i bod yn ymddangos felly hefyd.

7.2 Bod yr un prosesau gweinyddu, gan gynnwys ymgynghoriad yn cael eu cynnal ar bob cais o'r fath ag sy'n cael eu cynnal ar geisiadau preifat. Yn yr un modd, bydd polisïau cynllunio ac unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill hefyd yn cael eu hystyried wrth bennu cais.

7.3 Er mwyn sicrhau tryloywder ac ymagwedd agored wrth ddelio â cheisiadau o'r fath, ni fydd ceisiadau gan y Cyngor (heblaw am y rhai a restrir isod) yn cael eu trin o dan bwerau dirprwyedig, ond yn hytrach gan y Pwyllgor Cynllunio. Bydd rhai ceisiadau yn llai o ran natur ac ystyrir na fydd y ceisiadau canlynol yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio oni bai eu bod yn cael eu gweithredu gan adrannau eraill o'r cynllun dirprwyo: amrywio amod, diwygiadau ansylweddol, dileu amod a cheisiadau cymeradwyaeth/hysbysiad ymlaen llaw.

## 8. ADRODDIADAU SWYDDOGION I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

8.1 Bydd Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai yn ysgrifennu adroddiadau priodol yn cynnwys argymhellion ynglŷn â'r holl faterion Cynllunio a ystyrir gan y Pwyllgor Cynllunio (neu Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu os bydd materion cyfreithiol dan sylw). Bydd adroddiadau o'r fath yn gynhwysfawr, ond yn gryno o ran nodi'r materion cynllunio (neu gyfreithiol) allweddol y dylid eu hystyried (o ran darpariaethau'r cynllun datblygu a rhwymedigaethau cynllunio eraill), cynnwys unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ac unrhyw hanes cynllunio perthnasol.

8.2 Ni fydd Aelodau'n rhoi pwysau ar swyddogion i wneud argymhellion neu benderfyniadau penodol nac i newid argymhellion neu benderfyniadau mewn perthynas ag unrhyw gais.

## 9. RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO

9.1 Gall y Pwyllgor Cynllunio, wrth ystyried manteision cais, ystyried unrhyw rwymedigaethau cynllunio sydd wedi eu hargymell fel rhan o’r broses gynllunio a dylent ffurfio barn yn llwyr ar sail cynnwys y cais a dylent ystyried y rhwymedigaethau cynllunio ond i’r graddau y maent yn angenrheidiol i wneud cynnig yn dderbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir a bodloni’r profion yn y Rheoliadau CIL. Bydd rhwymedigaeth gynllunio ond yn rheswm dros roi caniatâd cynllunio i’r datblygiad os yw’r rhwymedigaeth –

(a) yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;

(b) yn ymwneud yn uniongyrchol â’r datblygiad; ac

(c) yn gymharol berthnasol o ran graddfa a’r math o ddatblygiad.

9.2 Dylai Aelodau osgoi dod yn rhan o drafodaethau gydag ymgeiswyr, darpar ymgeiswyr, eu hasiantau, tirfeddianwyr neu bartïon eraill sydd â diddordeb o ran buddion, a ellir eu cynnig i’r Cyngor neu fuddion y mae’r Cyngor ei hun yn dymuno eu cael.

## 10. TREFNIADAETH A SUT I GYNNAL CYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

10.1 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio'n gyfrifol am gynnal y cyfarfod yn unol â Rheolau Trefn y Cyngor a gweithdrefnau eraill ac am gynnal busnes yn effeithiol mewn modd proffesiynol, cwrtais a thryloyw. Bydd Aelodau'r Pwyllgor a swyddogion yn parchu'r rôl honno ac yn ymddwyn mewn ffordd sy'n gymesur â'r safonau uchel o ymddygiad a phriodoldeb a ddisgwylir mewn swydd gyhoeddus.

10.2 Bydd y Cadeirydd yn ceisio sicrhau bod Aelodau a swyddogion yn cael eu trin yn unol â'r Protocol Cysylltiadau Aelodau / Swyddogion y cytunwyd arno gan y Cyngor, gan dalu sylw i:

- agwedd wleidyddol ddiduedd swyddogion.
- annibyniaeth swyddogion.
- parch rhwng pawb, cwrteisi, cywirdeb a phroffesiynolrwydd gan barchu safbwyntiau gwahanol.

10.3 Fel arfer, caniateir i aelodau o'r cyhoedd, aelodau Rhanbarth Etholiadau ac aelodau Cabinet siarad unwaith yn unig ar bob cais yn unol â'r Canllawiau i bobl sy'n siarad mewn Pwyllgor Cynllunio (conwy.gov.uk).

10.4 Os yw cais yn cael ei gyfeirio’n ôl at y Pwyllgor Cynllunio yna, mewn amgylchiadau eithriadol, efallai bydd cyfle pellach i siarad (yn unol â’r uchod), dim ond lle bu newid sylweddol i’r cais, a gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn unig.

10.5 Bydd yn rhaid i swyddog sy'n dymuno siarad o blaid neu yn erbyn cais gadw at yr un rheolau ag aelod o'r cyhoedd.

10.6 Oni ddilynir y canllawiau hyn ac y caiff y cyfarfod ei darfu gan y cyhoedd, gall y cadeirydd atal y cyfarfod nes y caiff y mater ei ddatrys, neu mewn amgylchiadau eithafol, gau'r cyfarfod i'r cyhoedd.

**Gweithdrefn**

10.8 Ni fydd y Pwyllgor ond yn trafod yr eitemau ar y rhaglen a gyhoeddwyd, yn ogystal ag unrhyw eitemau brys a dderbyniwyd gan y Cadeirydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972. Fel arfer, bydd yr eitemau'n cael eu trafod yn nhrefn y rhaglen, ond bydd y Cadeirydd yn ceisio trafod ceisiadau y mae aelodau o'r cyhoedd wedi dod i'w clywed ynghynt.

10.9 Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio'n cael eu cynnal yn unol â Rheolau Trefn Pwyllgor y Cyngor ac yn sicrhau bod modd cynnal dadl briodol mewn dull strwythuredig a phroffesiynol, a bod Aelodau'n cael cyfle i godi materion cynllunio perthnasol (fel arfer drwy siarad unwaith yn unig). Bydd y Cadeirydd yn ceisio atal ailadrodd neu ddadl amherthnasol.

10.10 Bydd yr aelodau'n ymdrechu i roi o leiaf 24 awr o rybudd (yn ysgrifenedig, os yw'n bosibl) i Bennaeth Rheoleiddio a Thai ynglŷn â chwestiynau sy'n gofyn am ymateb technegol neu ymateb manwl fel bod modd paratoi ymateb addas ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio.

10.11 Pleidlais y mwyafrif fydd yn pennu pob penderfyniad cynllunio, a bydd y pleidleisio'n digwydd yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor a'r Cod Ymarfer hwn.

10.12 Bydd swyddog(ion) cynllunio'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Cynllunio ynglŷn â chyflwyniadau a materion eraill perthnasol yng nghyswllt pob cais na thrafodwyd yn y prif adroddiad, a thrwy'r Cadeirydd, byddant yn gyfrifol am ateb yn broffesiynol i gwestiynau'r Aelodau.

10.13 Bydd swyddogion cyfreithiol neu weinyddol priodol yn gyfrifol am gynghori'r Cadeirydd a'r Pwyllgor ynglŷn â materion sy'n ymwneud â threfn a phrotocol.

10.14 Lle bo swyddogion yn cynghori'r Cadeirydd ynglŷn â phryderon proffesiynol perthnasol neu ganlyniadau posibl gweithredu mewn rhyw fodd (neu ynglŷn ag atebolrwydd neu gamgymeriadau ffeithiol posibl) byddant yn cael cyfle rhesymol i egluro'r materion hyn yn gryno i'r Pwyllgor Cynllunio cyn iddo wneud penderfyniad.

## 11 ARCHWILIADAU SAFLE'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

**Pwrpas cynnal archwiliadau safle ar gyfer y Pwyllgor**

11.1 Mae archwiliadau safle pwyllgor yn ymarferion canfod ffeithiau i ganiatáu i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar fwy o ffeithiau nag a fyddai'n bosibl o ddarllen adroddiad y swyddog ac o ystyried y safbwyntiau a fynegir yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

11.2 Unig bwrpas cynnal archwiliadau safle yw rhoi cyfle i Aelodau edrych ar y safle a'r hyn sydd o'i amgylch. Wrth gynnal ymweliad safle, ni fydd Aelodau'n trafod y cais, yn mynegi barn flaenorol neu'n lobïo dros unrhyw benderfyniad penodol nac yn gwneud unrhyw benderfyniad.

**Ceisiadau am archwiliadau safle ar gyfer y Pwyllgor**

11.3 Bydd ceisiadau ar gyfer ymweliadau safle y Pwyllgor mewn perthynas ag eitemau heb eu dirprwyo a ddangosir ar y rhestr wythnosol gael eu hanfon at y Cadeirydd (a'r Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu) o fewn pythefnos o gyhoeddi'r Rhestr Wythnosol a dylid darparu rhesymau digonol a pherthnasol dros gynnal asesiad gan y Pwyllgor o'r safle.

11.4 Bydd ceisiadau a gyfeiriwyd at y Pwyllgor ar gais Aelod gyda

chymeradwyaeth y Cadeirydd yn destun ymweliad safle os ydynt wedi eu cyfeirio fel y nodwyd isod.

**Meini Prawf er mwyn cytuno i gynnal archwiliadau safle**

11.5 Pan gyflwynir cais am ymweliad safle wedi i'r cais ymddangos yn adroddiad y Pwyllgor, bydd y dasg o bennu'r cais yn cael ei gohirio. Er mai'r Pwyllgor Cynllunio sydd i benderfynu a ddylid cynnal archwiliad ai peidio mewn amgylchiadau o'r fath, ni fydd Aelodau'n mynd ar ymweliadau o'r fath ond os na all y Pwyllgor Cynllunio wneud penderfyniad sy'n seiliedig ar wybodaeth briodol ac y byddai archwiliad o fudd sylweddol. Mae enghreifftiau lle na ddylid cynnal ymweliad safle yn cynnwys:

- ar sail materion polisi neu faterion sy'n ymwneud ag egwyddor yn unig.
- mai'r unig reswm yw bod yr Aelod yn anghytuno â'r casgliad a gafwyd yn yr adroddiad.
- bod yr Aelod am ystyried dadl ynglŷn â therfynau neu rhwng cymdogion.
- bod eiddo yn colli ei werth.
- unrhyw faterion nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio perthnasol.
- lle bo Cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle o fewn y 12 mis diwethaf, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

11.6 Gall Aelodau ond dewis gohirio penderfyniad ar gais am ymweliad safle os yw'r cais wedi ei drafod a bod y trafodaethau wedi canfod rheswm pwysig pam na ellir dod i benderfyniad heb asesiad y Pwyllgor o'r cyd-destun safle gyda'r rhesymau yn cael eu cofnodi.

**Hysbysu ynglŷn ag archwiliadau safle**

11.7 Rhoddir gwybod i holl Aelodau'r Cyngor ynglŷn ag archwiliadau safle. Bydd yr ymgeisydd fel rheol yn cael gwybod am yr ymweliad, er mwyn hwyluso mynediad i'r safle.

11.8 Bydd rhestr o ymweliadau safle yn cynnwys amseroedd yn cael ei chyhoeddi'n unol â'r trefniadau arferol a'r gofynion statudol ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor.

**Mynychu archwiliadau safle**

11.9 Bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio (ynghyd ag unrhyw Aelod Lleol neu gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned / Tref lleol) yn cynnal yr archwiliadau. Fe all Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor hefyd fod yn bresennol yn amodol ar ddisgresiwn y Cadeirydd.

11.10 Ni all yr Aelodau fynd ar y safle heb ganiatâd y perchennog sydd â hawl i fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle.

11.11 Nid oes gan y cyhoedd hawl i gael mynediad i safle, ond gallant fod yn bresennol i weld y safle o lecyn cyhoeddus cyfagos neu ar y safle ei hun gyda chaniatâd y perchennog.

11.12 Ni all y cyhoedd annerch y cyfarfod, oni bai eu bod yn ateb cwestiynau ffeithiol gan Gadeirydd y Pwyllgor.

11.13 Os yw Aelod yn credu y dylai ymweld â safle ar ei ph/ben ei hun fe ddylai edrych ar y safle o lecyn cyhoeddus cyfagos yn unig, ceisio peidio cael trafodaeth gyda budd-ddeiliaid, ac (os bydd sgwrs yn codi) dylid mynegi'n glir y gwneir penderfyniad pan fo'r cais yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio wedi i archwiliad safle gael ei gynnal.

**Ymddygiad ar archwiliadau safle**

11.14 Bydd yr archwiliad yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a fydd yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal fel cyfarfod unigol ac mewn trefn.

11.15 Bydd y Swyddog Cynllunio'n rhoi crynodeb byr o'r cais a'r materion sydd ynghlwm wrth yr archwiliad safle ar ddechrau pob ymweliad.

11.16 Ni fydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio sy'n mynychu'r ymweliad safle yn gwneud sylwadau a allai greu'r argraff eu bod eisoes wedi llunio'u barn ynglŷn â rhinweddau'r cais.

11.17 Ni fydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n trafod y cais, ond er mwyn cadarnhau ffeithiau, ac ni fyddant yn gwneud penderfyniad tra'u bod ar y safle.

11.18 Dim ond gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio y gall aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor gan gynnwys yr aelod lleol drafod ffeithiau gyda'u cydweithwyr ar faterion sy'n ymwneud â chyd-destun y safle.

11.19 Ni fydd yr ymgeiswyr na'r cyhoedd yn cael siarad ag Aelodau yn ystod archwiliad safle, ond fe all y Cadeirydd ofyn iddynt gadarnhau ffeithiau. Bydd gan gynrychiolwyr Cynghorau Cymuned / Tref sy'n cael eu gwahodd i ymweld â safle yn cael siarad ag Aelodau ynglŷn â'r cais, neu i ehangu ar sylwadau'r Cyngor Cymuned / Tref am y cais penodol hwnnw. Ni fydd cynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned / Tref yn cael mynegi eu barn eu hunain os yw eu barn yn wahanol i farn eu Cyngor Cymuned / Tref fel sefydliad.

11.20 Fe all Aelodau ofyn cwestiynau i swyddogion, yr ymgeisydd, cynrychiolwyr cynghorau cymuned / tref, neu'r cyhoedd, drwy'r Cadeirydd, i gadarnhau ffeithiau sy'n berthnasol i'r archwiliad safle. Bydd unrhyw gwestiynau a ofynnir i'r ymgeisydd; cynrychiolydd y Cyngor Cymuned / Tref neu i'r cyhoedd yn cael eu cyflwyno fel bo'r naill garfan a'r llall yn eu clywed.

11.21 Os yw trydydd parti'n gofyn am gael archwilio'r safle o leoliad gwahanol, fe ddylai'r Aelodau, mewn grŵp, benderfynu a ddylid gwneud hynny ai peidio. Oni bai bod rhesymau da dros beidio, dylid derbyn cais o'r fath fel arfer, ond dim ond os estynnir yr un gwahoddiad i bawb sy'n bresennol ar yr archwiliad safle.

## 12. PENDERFYNIADAU A WNEIR GAN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO SY'N GROES I ARGYMHELLION SWYDDOGION

12.1 O dro i dro, bydd y Pwyllgor yn anghytuno gyda chyngor proffesiynol y swyddogion, ac fe allant benderfynu pennu cais yn groes i'r cyngor hwnnw. Pan fydd hyn yn digwydd bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn ceisio sicrhau bod yr egwyddorion canlynol yn cael eu dilyn:-

- bydd yr Aelodau'n mynegi'r rheswm (rhesymau) cynllunio dros eu penderfyniad (a bydd y rhain yn cael eu cofnodi).
- bydd aelod sy'n cynnig gwrthod cais y mae swyddog wedi argymell y dylid ei gymeradwyo yn nodi ei r/rhesymau am hynny cyn cynnal pleidlais.

12.2 Pan fo'r Pwyllgor wedi pleidleisio i wneud penderfyniad ar gais cynllunio yn groes i argymhellion y swyddogion, ni fydd penderfyniad ffurfiol yn cael ei wneud ar y cais, fel arfer, tan ar ôl ystyried adroddiad pellach sydd i'w gyflwyno gan swyddogion yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. Mewn achosion eithriadol, pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu fod amgylchiadau'n eu rhwystro rhag gohirio'r cais, bydd y rhesymau am hyn wedi'u nodi, eu cytuno a'u cofnodi'n glir yng nghofnodion y cyfarfod.

12.3 Bydd swyddogion yn cael cyfle i egluro i'r Pwyllgor Cynllunio beth yw goblygiadau cynllunio ac/neu gyfreithiol eu penderfyniad bwriedig cyn cadarnhau'r penderfyniad hwnnw.

12.4 Lle bo'r Pwyllgor Cynllunio'n dymuno ychwanegu neu newid amodau / rhesymau, neu gynnwys rhwymedigaeth cynllunio, bydd swyddogion yn cael

cyfle i egluro'r goblygiadau cynllunio ac / neu gyfreithiol cyn cadarnhau'r penderfyniad.

## 13. APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR

13.1 Bydd swyddogion yn trefnu ac fel arfer yn mynychu apeliadau cynllunio ac achosion eraill fel tystion ar ran y Cyngor. Mewn rhai amgylchiadau (megis pan fo angen tystiolaeth arbenigol neu lle mae penderfyniad Aelod yn groes i argymhelliad swyddogion) efallai y bydd angen penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

13.2 Wrth gyflwyno tystiolaeth, bydd Swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau bosib ar ran y Cyngor wrth gydymffurfio â Chod Ymddygiad Proffesiynol RTPI3.

*Mae Cod Ymarfer Proffesiynol y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn ei gwneud hi'n ofynnol, ymhlith eraill, nad yw Swyddogion Cynllunio sy'n aelodau o'r Sefydliad yn gwneud datganiadau gan honni eu bod yn ddiffuant, ond sy'n groes i'w barn broffesiynol gywir.*

13.3 Mewn achosion lle mae'r apêl yn erbyn penderfyniad y mae'r Pwyllgor wedi ei wneud yn groes i argymhelliad y swyddogion, efallai y bydd y swyddogion cynllunio yn methu amddiffyn penderfyniadau ar apêl (oherwydd gofynion rheolau ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol) ac fe ddylai'r Pwyllgor Cynllunio fod yn ymwybodol o hynny cyn i'r bleidlais derfynol yn cael ei bwrw. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pwyllgor yn enwebu (o leiaf) dau aelod a bleidleisiodd yn groes i'r argymhelliad i ymddangos mewn unrhyw apêl ac i egluro penderfyniadau'r Pwyllgor a'r rhesymau drostynt. Fel rheol, cynigydd ac eilydd y cynnig, a oedd yn groes i argymhelliad y swyddogion. Dylid hefyd dewis dau aelod wrth gefn i gymryd rhan os nad yw'r ddau brif aelod (cynigydd ac eilydd) yn gallu cymryd rhan yn y broses apêl am unrhyw reswm.

13.4 Mae gan Aelodau rôl bwysig i'w chwarae mewn apeliadau ac efallai, o fewn terfynau amser penodedig, y gallant wneud sylwadau ysgrifenedig i'r Arolygydd ac efallai y gallant ymddangos mewn gwrandawiadau anffurfiol neu fel tyst mewn ymchwiliadau lleol cyhoeddus. Wrth wneud hynny dylent nodi a ydynt yn gweithredu yn eu rôl fel Cynghorydd Lleol, neu, mewn eithriad, yn cynrychioli achos y Cyngor.

13.5 Bydd Swyddogion Cynllunio a Chyfreithiol yn cefnogi Aelodau sy'n mynychu neu sy'n dymuno cyflwyno sylwadau mewn apeliadau ac yn rhoi cyngor iddynt ynglŷn â sut i baratoi a chyflwyno tystiolaeth. Bydd Swyddogion Cyfreithiol yn mynychu Ymchwiliadau ac / neu yn helpu i baratoi sylwadau lle bo angen cynrychiolaeth gyfreithiol.

## 14. HYFFORDDIANT I AELODAU

14.1 Dylai Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio gwblhau cwrs gofynion Aelodau sylfaenol (neu gwrs gloywi tebyg a ddarperir gan ffynhonnell fewnol neu allanol) o fewn

y pedair blynedd flaenorol ac ni ddylid caniatáu iddynt bleidleisio ar y Pwyllgor heb fodloni gofyniad o’r fath.

14.2 Disgwylir i bob Aelod o’r Pwyllgor fynychu sesiynau hyfforddiant a nodwyd gan y pwyllgor cynllunio fel rhai angenrheidiol i ddarparu diweddariad neu sgiliau hanfodol o ran newid gofynion cynllunio a bydd methu â gwneud hynny yn golygu colli pwerau pleidleisio nes bod hyfforddiant cyfatebol wedi ei gwblhau.

14.3 Dylid darparu hyfforddiant ychwanegol ar faterion o ddiddordeb neu fudd cyffredinol. Dylai Aelodau wneud bob ymdrech i fynychu sesiynau o’r fath (i’w trefnu fel arfer rhwng 30 a 60 munud cyn cyfarfod Pwyllgor Cynllunio). Bydd cofnod o bresenoldeb o’r fath yn cael ei gadw ond ni fydd yn effeithio ar bwerau pleidleisio.

## 15. ADOLYGU PENDERFYNIADAU

15.1 Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio 'Building Quality' yn argymell y dylai Cynghorwyr ymweld â sampl o geisiadau cynllunio a ganiatawyd ac a gyflawnwyd er mwyn asesu ansawdd y penderfyniadau a wnaed. Nid newid penderfyniadau yw pwrpas adolygu fel hyn, ond yn hytrach asesu a gwella ansawdd a chysondeb penderfyniadau, gan gryfhau hyder y cyhoedd a chynorthwyo i adolygu polisïau cynllunio.

15.2 Bydd y Pwyllgor Cynllunio'n cynnal adolygiad blynyddol o sampl o benderfyniadau cynllunio a wnaed gan y Pwyllgor. Bydd yr adolygiad yn cynnwys enghreifftiau o amrywiaeth eang o ddatblygiadau (e.e. cynigion preswyl graddfa fawr a cheisiadau lle rhoddwyd caniatâd adeilad rhestredig) ac yn cynnwys ymweliadau â'r safleoedd lle'r ystyrir bod hynny'n briodol.

15.3 Bydd y Pwyllgor Cynllunio'n ystyried canlyniadau'r adolygiad yn ffurfiol ac yn penderfynu a oes angen creu gweithdrefnau ac arferion newydd yn ei sgil.

15.4 Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Cynllunio am ganlyniadau apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor yn rheolaidd fel bo modd dysgu gwers ohonynt. Er mwyn cael y newyddion diweddaraf rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Cynllunio hefyd am ganlyniadau achosion gorfodaeth ac achosion llys yn rheolaidd.